# Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 11 Mawrth 2026

Amser y cyfarfod: 13.30

# 337 (v2)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

(45 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

(45 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

## 4 Datganiadau 90 eiliad

(5 munud)

## 5 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Chofrestru Buddiannau'r Aelodau

(5 munud)

**NDM9203** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, ‘Diwygio’r Rheolau Sefydlog: Rheolau Sefydlog 2, 3, 4 a 5 mewn perthynas â Chofrestru Buddiannau’r Aelodau’, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mawrth 2026.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog, fel y nodir yn Atodiad B adroddiad y Pwyllgor Busnes.

3. Yn nodi y bydd y newidiadau yn dod i rym ar ddechrau'r Senedd nesaf

## 6 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Datgan Buddiannau’r Aelodau

(5 munud)

**NDM9204** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, ‘Diwygio’r Rheolau Sefydlog: Rheolau Sefydlog 2, 13, 15 a 17 mewn perthynas â datgan buddiannau’r Aelodau’, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mawrth 2026.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog, fel y nodir yn Atodiad B adroddiad y Pwyllgor Busnes.

3. Yn nodi y bydd y newidiadau yn dod i rym ar ddechrau'r Senedd nesaf.

## 7 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Busnes Seneddol yn y Seithfed Senedd

(5 munud)

**NDM9205** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, ‘Diwygio’r Rheolau Sefydlog: Rheolau Sefydlog 11.10 a 12.6(i)’, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mawrth 2026.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog, fel y nodir yn Atodiad B adroddiad y Pwyllgor Busnes.

3. Yn nodi y bydd y newidiadau yn dod i rym ar ddechrau'r Senedd nesaf

## 8 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Biliau Aelod

(5 munud)

**NDM9206** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, 'Diwygio'r Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 26: Biliau Aelod', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mawrth 2026.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog, fel y nodir yn Atodiad 2 adroddiad y Pwyllgor Busnes.

3. Yn nodi y bydd y newidiadau yn dod i rym ar ddechrau'r Senedd nesaf

## 9 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Biliau Cyhoeddus

(5 munud)

**NDM9207** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, 'Diwygio'r Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mawrth 2026.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog, fel y nodir yn Atodiad 2 adroddiad y Pwyllgor Busnes.

3. Yn nodi y bydd y newidiadau yn dod i rym ar ddechrau'r Senedd nesaf

## 10 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Deisebau'r Cyhoedd

(5 munud)

**NDM9208** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, 'Diwygio'r Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 23 – Deisebau'r Cyhoedd', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mawrth 2026.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog, fel y nodir yn Atodiad B adroddiad y Pwyllgor Busnes.

3. Yn nodi y bydd y newidiadau yn dod i rym ar ddechrau'r Senedd nesaf

## 11 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Cywain y cynhaeaf: Cefnogi diwydiant prosesu bwyd Cymru

(30 munud)

**NDM9200** Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru)

Yn nodi adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ‘Cywain y cynhaeaf: Cefnogi diwydiant prosesu bwyd Cymru’, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Ionawr 2026.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mawrth 2026.

## 12 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Cronfa Twf Lleol

(30 munud)

**NDM9201** Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru)

Yn nodi adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar y Gronfa Twf Lleol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Chwefror 2026.

## 13 Dadl: Cyfnod 4 y Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)

(15 munud)

## 14 Dadl ar Adroddiad y Bwrdd Adolygiad Seneddol sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd

(60 munud)

**NDM9199** Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi'r adroddiad ar yr Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd, Senedd i Bawb, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mawrth 2026.

## 15 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Polisi Economaidd

(60 munud)

**NDM9202** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi Datganiad Gwanwyn Llywodraeth y DU ar 3 Mawrth 2026 a'r rhagolygon economaidd diweddaraf.

2. Yn gresynu, o dan lywodraethau Llafur yn San Steffan a Chaerdydd:

a) bod rhagolygon twf economaidd wedi'u hisraddio;

b) bod disgwyl i ddiweithdra godi a bod Cymru'n parhau i fod â'r gyfradd gyflogaeth isaf yn y DU;

c) bod nifer y bobl yng Nghymru ar gredyd cynhwysol ar ei lefel uchaf erioed;

d) mai'r lefel anweithgarwch economaidd yng Nghymru yw'r uchaf ym Mhrydain Fawr;

e) mai pecynnau cyflog yng Nghymru yw'r isaf yn y Deyrnas Unedig.

3. Yn credu, ar ôl bron i dri degawd o lywodraeth dan arweiniad Llafur yng Nghymru, bod economi Cymru yn tanberfformio a bod angen dull cryf sy'n ffafrio twf ar bobl sy'n gweithio a busnesau.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gael Cymru i weithio drwy wneud y canlynol:

a) gwneud toriad o 1 geiniog yn y bunt i gyfradd sylfaenol treth incwm Cymru;

b) diddymu ardrethi busnes ar gyfer cwmnïau bach, tafarndai a swyddfeydd post;

c) dileu'r dreth dwristiaeth arfaethedig;

d) diddymu treth trafodiadau tir wrth brynu prif breswylfa;

e) ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal refferendwm cyn cyflwyno cynnydd o fwy na 5 y cant i'r dreth gyngor.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn croesawu’r £555 milliwn yn ychwanegol mewn cyllid cyfalaf ac adnoddau ar gyfer Cymru dros y tair blynedd nesaf yn natganiad y gwanwyn Llywodraeth y DU.
**Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2 a 3 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 2** [Heledd Fychan (Canol De Cymru)]
Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn gresynu at y canlynol o dan Lywodraeth Geidwadol flaenorol y DU:

a) bod treth fel cyfran o CMC wedi cyrraedd ei lefel uchaf ers yr Ail Ryfel Byd;

b) bod safonau byw wedi gostwng yn ystod Senedd 2019-2024, y dirywiad cyntaf o'r fath ar gofnod;

c) bod cyllideb fach Liz Truss, gyda chefnogaeth y grŵp Ceidwadol yn y Senedd, wedi chwalu economi'r DU ac anfon taliadau morgais i berchnogion tai drwy'r to;

d) bod Brexit wedi achosi ergyd economaidd i Gymru sydd hyd yma yn fwy na £4 biliwn, ac mae'n parhau i osod biwrocratiaeth beichus ar fusnesau Cymru; ac

e) na wnaeth addewidion i drydaneiddio'r rheilffordd rhwng Caerdydd ac Abertawe ac ailwampio rheilffordd Gogledd Cymru erioed gael eu gwireddu.

Yn gresynu at y canlynol o dan y llywodraethau Llafur presennol yn San Steffan a Chymru:

a) bydd cyllideb Cymru yn profi ei thwf isaf mewn gwariant o ddydd i ddydd y tu allan i'r blynyddoedd llymder presennol, a chyllideb gyfalaf sy'n crebachu;

b) bod fformiwla Barnett wedi cael ei llywio ar draul Cymru wrth gyfrifo ad-daliadau'r Trysorlys ar gyfer cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr yn y sector cyhoeddus craidd, gan greu twll du yng nghyllid cyhoeddus Cymru y bu'n rhaid ei ysgwyddo gan awdurdodau lleol; ac

c) bod Cymru ymhlith yr isaf o'r 12 cenedl a rhanbarth y DU ar ystod o fetrigau perfformiad economaidd, gan gynnwys cynhyrchiant, cyflogaeth ac incwm sylfaenol y pen.

Yn credu:

a) bod pobl Cymru wedi cael eu gadael mewn gwaeth sefyllfa yn sgil agendâu polisi llywodraethau olynol yn San Steffan;

b) bod Reform yn bygwth gwaethygu'r niwed hwn drwy gynlluniau gwariant sydd heb eu costio a thoriadau dwfn i wasanaethau cyhoeddus; ac

c) mai dim ond Plaid Cymru sy'n cynnig arweinyddiaeth newydd i ryddhau potensial economaidd Cymru.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) sefydlu asiantaeth ddatblygu genedlaethol ar gyfer yr 21ain ganrif i ryddhau potensial economi Cymru;

b) gweithredu rhaglen gofal plant Plaid Cymru i arbed mwy na £30,000 i deuluoedd mewn costau fesul plentyn;

c) diwygio ardrethi busnes i gefnogi busnesau bach a chanolig domestig yn well; a

d) gweithio gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru i sicrhau bod cyfran uwch o gyfoeth asedau pensiwn Cymru yn cael ei chadw a'i hail-fuddsoddi yn ein cymunedau.
**Os derbynnir gwelliant 2, caiff gwelliant 3 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 3** Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru)
Dileu popeth ar ôl pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn credu, bod economi Cymru, ar ôl bron i dri degawd o Lywodraethau Llafur Cymru, gyda chefnogaeth Plaid Cymru, yn tanberfformio a bod angen dull cryf o gefnogi twf ar fusnesau a phobl sy'n gweithio.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â chostau byw, rhoi hwb i economi Cymru, a rhoi pobl Cymru yn gyntaf trwy:

a) cyflwyno cynllun credadwy i leihau treth incwm un geiniog ar draws pob band;

b) dileu'r dreth dwristiaeth;

c) cyflwyno clo ar drethi er mwyn atal trethi neu ardollau newydd rhag cael eu creu gan Lywodraeth Cymru;

d) dileu sero net i roi terfyn ar gymorthdaliadau gwastraffus, a'i gwneud yn haws adeiladu seilwaith;

e) ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gynnal refferenda ar gyfer codiadau'r dreth gyngor uwchlaw 4.99 y cant;

f) adfer y terfyn cyflymder diofyn o 30mya;

g) cyflawni ffordd liniaru'r M4;

h) cynnal adolygiad trylwyr o'r holl reoliadau i asesu a ydynt yn angenrheidiol, yn gymesur ac yn addas i'r diben;

i) gweithredu lluosydd cyfraddau busnes is yn barhaol ar gyfer tafarndai, gwestai a lleoliadau lletygarwch; a

j) blaenoriaethu caffael gyda chwmnïau lleol.

**Cyd-gyflwynwyr**

James Evans (Brycheiniog a Sir Faesyfed)

## 16 Cyfnod pleidleisio

(30 munud)

## 17 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM9190** Russell George (Sir Drefaldwyn)

Darparu gofal iechyd yn deg ar draws pob rhan o Gymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 17 Mawrth 2026

## Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 04/03/2026 i'w hateb ar 11/03/2026

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

### YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS GYLLID A'R GYMRAEG

**Hannah Blythyn** *Delyn*

1 OQ63969 **(w)**

Pa asesiad y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'i wneud o adroddiad pum mlynedd Comisiynydd y Gymraeg - Cyfle ein cenhedlaeth: Sefyllfa'r Gymraeg 2021–25

**Joel James** *Canol De Cymru*

2 OQ63953 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd tuag at dargedau Cymraeg 2050 yng Nghaerdydd, gan gynnwys sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cadwraeth hirdymor a defnydd dyddiol o'r Gymraeg ledled y ddinas?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

3 OQ63967 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ganlyniadau datganiad gwanwyn Llywodraeth y DU i bobl Islwyn?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

4 OQ63965 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad ar ryddhad ardrethi busnes ar gyfer tafarndai a bwytai yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

5 OQ63961 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi ei wneud o effaith y cynnydd arfaethedig yn y dreth gyngor yn Nwyrain De Cymru?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

6 OQ63973 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad ar ba ddyraniadau cyllid canlyniadol Barnett y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl eu cael yng ngoleuni datganiad gwanwyn Llywodraeth y DU?

7

**Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

OQ63962 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am yr effaith y bydd ardoll ymwelwyr Llywodraeth Cymru yn ei chael ar Ddwyrain De Cymru?

8

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

OQ63974 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad ar oblygiadau datganiad gwanwyn Llywodraeth y DU ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru?

9

**Gareth Davies** *Dyffryn Clwyd*

OQ63964 **(e)**

Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd yr arian a godir o'r ardoll ymwelwyr yn cael ei fuddsoddi mewn seilwaith twristiaeth?

10

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

OQ63945 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gronfa Buddsoddi i Arbed?

11

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

OQ63958 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus?

12

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

OQ63979 **(w)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet amlinellu'r cynydd y mae'r Llywodraeth yn ei wneud tuag at cyrraedd ei tharged o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?

## Y DIRPRWY BRIF WEINIDOG AC YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS NEWID HINSAWDD A MATERION GWLEDIG

1

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

OQ63957 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut mae cynlluniau Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a Rhwydweithiau Natur yn cysylltu pobl â byd natur?

2

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

OQ63977 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn gwella ansawdd dŵr mewn afonydd?

3

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

OQ63971 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella proffidioldeb yn y sector ffermio?

4

**James Evans** *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

OQ63947 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r sector amaethyddol ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed?

5

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

OQ63956 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn gwella diogeledd bwyd yng Nghymru?

6

**Gareth Davies** *Dyffryn Clwyd*

OQ63963 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ymdrechion i ddarparu atebion parhaol i lifogydd afonol yn Sir Ddinbych?

7

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

OQ63943 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am lygredd aer a dŵr yn Abertawe?

8

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

OQ63968 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o berfformiad Dŵr Cymru wrth wasanaethu pobl Islwyn?

9

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

OQ63966 **(w)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i sicrhau bod yr un o bob saith eiddo yng Nghymru sydd mewn perygl o lifogydd wedi cael cyngor am fesurau gwydnwch llifogydd eiddo a allai fod o fudd iddynt?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

10 OQ63976 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn sgil darganfod cemegau am byth carsinogenaidd yn yr hen ffatri 3M yng Ngorseinon?

**Adam Price** *Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr*

11 OQ63955 **(w)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru yn parhau'n ymrwymedig i'w tharged gwreiddiol ar gyfer creu coetiroedd newydd erbyn 2030?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

12 OQ63949 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad ar y cynnydd tuag at gyflwyno cynllun dychwelyd ernes yng Nghymru?